Ffotograffau a fideos yng Nghaersalem

Photos and videos at Caersalem

Cymraeg | English

Pam rydym yn tynnu ffotograffau a fideos?	Why do we take photos and videos?
Weithiau byddwn yn tynnu ffotograffau a fideos yn ystod gweithgareddau, clybiau, digwyddiadau ac oedfaon yr eglwys.	We sometimes take photos and videos during church activities, clubs, events and services.
Rydym yn eu defnyddio i:	We use them to:
Ddathlu'r hyn sy'n digwydd yng Nghaersalem	Celebrate what is happening at Caersalem
Rhannu newyddion a straeon ar ein gwefan a'n cyfryngau cymdeithasol	Share news and stories on our website and social media
Creu posteri, cylchlythyrau a deunyddiau hyrwyddo	Create posters, newsletters and publicity
Helpu eraill i weld sut beth yw bywyd yr eglwys	Help others see what church life is like

Mae dy ddewis di'n bwysig	Your choice matters
Rydym am i bawb deimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus.	We want everyone to feel safe and comfortable.
Os nad wyt ti am i rywun dynnu dy lun neu dy ffilmio, mae hynny'n iawn.	If you do not want your photo or video taken, that's OK.
Gelli di ddweud wrth:	You can tell:
Arweinydd yn yr eglwys	A church leader
Dy riant neu dy ofalwr	Your parent or carer
Byddwn yn parchu dy ddymuniadau.	We will respect your wishes.

Ein haddewidion i ti

Our promises to you

Rydym yn addo	We promise to
Dy drin â pharch	Treat you with respect
Defnyddio ffotograffau a fideos yn ofalus	Use photos and videos carefully
Gwrando os oes gennyt ti unrhyw bryderon	Listen if you have any concerns
Parchu dy ddewisiadau	Respect your choices
Cadw delweddau mor ddiogel â phosibl	Keep images as safe as possible

Ni fyddwn yn	We will not
Defnyddio ffotograffau i godi cywilydd ar neb na chynhyrfu neb	Use photos to embarrass or upset anyone
Rhannu gwybodaeth bersonol amdanat ti	Share personal information about you
Defnyddio dy enw llawn ochr yn ochr â dy ddelwedd	Use your full name alongside your image
Anwybyddu dy ddymuniadau os nad wyt ti am gael tynnu dy lun	Ignore your wishes if you do not want to be photographed

Os oes angen help arnat ti

If you need help

Beth os byddaf yn newid fy meddwl?	What if I change my mind?
Mae hynny'n iawn.	That's fine.
Os gweli di ffotograff neu fideo ohonot ti dy hun ac yr hoffet inni ei dynnu i lawr, siarada ag arweinydd yn yr eglwys neu â dy riant neu dy ofalwr.	If you see a photo or video of yourself and would like us to remove it, speak to a church leader or your parent or carer.
Byddwn yn gwneud ein gorau i helpu.	We will do our best to help.

Os wyt ti'n poeni	If you are worried
Os oes unrhyw beth am ffotograff, fideo neu neges ar-lein yn gwneud iti deimlo'n anghyfforddus, siarada â:	If anything about a photo, video or online post makes you uncomfortable, please speak to:
Arweinydd yn yr eglwys	A church leader
Aelod o'r tîm diogelu	A member of the safeguarding team
Oedolyn rwyt ti'n ymddiried ynddo	A trusted adult
Mae dy ddiogelwch a dy les yn bwysicach nag unrhyw ffotograff neu fideo.	Your safety and wellbeing are more important than any photo or video.

Cofia	Remember
Rwyt ti'n bwysig.	You matter.
Mae dy lais di'n bwysig.	Your voice matters.
Mae bob amser yn iawn dweud wrthym os nad wyt ti am i rywun dynnu dy lun.	It is always OK to tell us if you do not want your photo taken.